O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2023 Rhif 120 (Cy. 21)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Ger Bronllys, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr, Marchogwyr a Da Byw Dros Dro) 2023

Gwnaed	*3 Chwefror 2023*
Yn dod i rym	*6 Chwefror 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A479, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Ger Bronllys, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr, Marchogwyr a Da Byw Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2023.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 08:00 o'r

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gloch ar 6 Chwefror 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg i Lys-wen sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de o ganolbwynt y gyffordd gylchfan â'r A438 ym Mronllys i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A438 ym Marish, Bronllys, yn Sir Powys.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw dda byw fynd ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

7. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Chwefror 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru